**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-938
Ein cyf/Our ref KW/00692/20

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

01 Ebrill 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch am eich llythyr ynghylch deiseb P-05-938, sy'n gofyn am ragor o wybodaeth am ein gwaith yn codi ymwybyddiaeth o Fagloriaeth Cymru ac i wella sut y mae Prifysgolion yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau (SCC) yn eu cynigion.  Dyma atebion i'r pwyntiau yn eich llythyr.

<u>Manylion am sut y mae'r gwaith o gasglu enwau prifysgolion sy'n derbyn Bagloriaeth Cymru yn ei cynigion yn mynd rhagddo</u>

Mae gwaith Cymwysterau Cymru yn casglu enwau'r prifysgolion sy'n derbyn yr SCC yn parhau. Fodd bynnag, nid yw hon yn dasg mor hawdd ag y mae'n ymddangos. Er enghraifft, mae'r gwaith wedi dangos fod y rhan fwyaf o brifysgolion yn derbyn yr SCC, ond ymddengys bod gwahaniaethau yn parhau rhwng gwahanol gyfadrannau a'i gilydd o fewn y prifysgolion hyn. Her arall yw bod yr wybodaeth yn newid o hyd, gan fod prifysgolion a chyfadrannau yn ailedrych ac yn diweddaru eu gofynion mynediad yn gyson. Rydym wedi ysgrifennu blog i ddangos yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Efallai y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi.

<u>Ymateb i sylwadau'r deisebydd fod gwahaniaeth rhwng derbyn y cymhwyster yn ychwanegol at 3 cymhwyster safon uwch a bod yn gyfwerth â safon uwch</u>

Fel y dwedais yn fy ymateb blaenorol i'r pwyllgor, mae llawer o brifysgolion bellach yn derbyn yr SCC yn eu cynigion. Cydnabyddir bod modd cymharu'r her o ennill y Dystysgrif i'r her o ennill cymhwyster safon uwch ac mae'n derbyn yr un nifer o bwyntiau UCAS. Fodd bynnag, fel cyrff annibynnol, y prifysgolion sy'n penderfynu ar eu prosesau a'u meini prawf derbyn eu hunain. Er ein bod yn cytuno bod gwahaniaeth rhwng derbyn y cymhwyster yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ychwanegol at 3 safon uwch a chael ei dderbyn fel cymhwyster cyfwerth â Safon Uwch, yn y pen draw, y prifysgolion sy'n pennu'r gofynion mynediad i'w cyrsiau. Er bod gwahaniaethau rhwng polisïau sefydliadau a chyfadrannau unigol, ymddengys i Cymwysterau Cymru o'u gwaith ymgysylltu a chasglu tystiolaeth bod yr SCC yn cael ei gwerthfawrogi a'i bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at geisiadau dysgwyr i'r brifysgol.


<u>Sut y mae Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'r cymhwyster ac yn annog prifysgolion i gydnabod Bagloriaeth Cymru fel un sy'n cyfateb i safon uwch</u>

Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu ym maes cyfathrebu i gydgysylltu'r gwaith o hyrwyddo Bagloriaeth Cymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr ar ran Cymwysterau Cymru, CBAC, Addysg Bellach, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd ar weithgarwch ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno ymgyrch i randdeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys mireinio'r prif negeseuon i wella dealltwriaeth pobl o Fagloriaeth Cymru, yn ddysgwyr, rhieni, ysgolion, sefydliadau addysg uwch a busnesau. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys datblygu microsafle cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau a chynnwys amlgyfrwng.

Mae'r holl weithgareddau hyrwyddo wedi eu hatal dros dro oherwydd canllawiau cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar argyfwng y Coronafeirws. Fodd bynnag, mae elfennau o'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddynt pan fo hynny'n bosibl.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education